# Beth ddylai fod yn eich pecyn llifogydd?

Mae pecyn llifogydd yn fag sy'n barod i'w fachu a'i gymryd gyda chi pe baech chi neu'ch dysgwyr yn derbyn rhybudd llifogydd. Mae pecyn llifogydd yn cynnwys eitemau hanfodol a defnyddiol a fyddai'n cadw teulu neu unigolyn i fynd pe bai'n rhaid iddynt adael eu cartref ar fyr rybudd.

Beth mae eich dysgwyr yn ei ystyried yn eitemau hanfodol, defnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol, a pham? Gallech ddefnyddio ein Cardiau adnoddau - Beth ddylai fod yn eich pecyn llifogydd? i ysgogi trafodaeth ar yr hyn y dylid ei gynnwys. Isod rydym yn awgrymu beth ddylid ei gynnwys mewn pecyn llifogydd a pham.

## Eitemau hanfodol

### Cynllun llifogydd personol

Mae cynllun llifogydd personol yn cynnwys rhestr wirio o'r pethau y dylech eu gwneud i baratoi ar gyfer llifogydd.

### Manylion cyswllt mewn argyfwng

Gan gynnwys manylion cyswllt pwysig e.e. llinell gymorth hawliadau yswiriant, y cyngor a'r gwasanaethau brys a all helpu pobl i gael cymorth a'u galluogi i alw eu teulu a'u ffrindiau a rhoi gwybod eu bod yn iawn.

### Dogfennau pwysig

Pasbortau neu drwydded yrru, er mwyn i'r rhai y mae llifogydd yn effeithio arnynt allu profi pwy ydyn nhw. Copïau o ddogfennau yswiriant fel y gall preswylwyr gysylltu â'u cwmni yswiriant, rhoi gwybod am y difrod a gwneud hawliad.

### Arian parod / cardiau banc ar gyfer argyfwng

Er mwyn gallu prynu bwyd ac eitemau hanfodol ar unwaith.

### Meddyginiaethau ac offer meddygol

Fel y gall unrhyw un sy'n dibynnu ar feddyginiaeth neu offer meddygol e.e. cymhorthion clyw neu bympiau asthma, barhau i gymryd eu meddyginiaeth yn ôl yr angen, gan eu helpu i gadw'n iach yn syth ar ôl digwyddiad llifogydd.

### Eitemau hanfodol i fabanod

Cewynnau, cadachau, dillad, bwyd babanod, llaeth powdr a photeli wedi'u sterileiddio os oes angen.

### Ffonau symudol a gwefryddion

Efallai y bydd gwasanaethau/cyfleustodau'n cael eu heffeithio ac efallai na fydd llinellau ffôn yn gweithio. Efallai y bydd yn bosib gwefrio ffôn symudol mewn canolfan argyfwng ac aros mewn cysylltiad â phobl eraill.

### Radio weindio neu radio symudol

Mae'n debygol iawn y bydd pŵer prif gyflenwad yn cael ei effeithio yn ystod llifogydd ac os yw dŵr yn agos at fynd i mewn i eiddo, dylid diffodd y prif gyflenwad pŵer. Bydd radio weindio neu radio symudol yn galluogi'r rhai yr effeithir arnynt i fonitro'r newyddion am gyngor ac arweiniad a chael y diweddaraf am y tywydd.

### Tortsh

Os bydd cartrefi'n colli pŵer ac yn mynd yn dywyll, bydd cael tortshys wrth law yn caniatáu i deuluoedd barhau â'u paratoadau llifogydd a bydd yn eu helpu i adael eu heiddo.

### Batris sbâr

O'r maint cywir i gadw eitemau fel tortshys a radios wedi'u pweru neu ystyriwch fodelau y gellir eu weindio.

### Dillad glaw cynnes ac esgidiau glaw

Bydd dillad arferol yn mynd yn soeglyd yn gyflym yn ystod cyfnod o law trwm a llifogydd. Cadwch yn gynnes ac yn sych trwy wisgo dillad gwrth-ddŵr.

### Bwyd tun a bwyd sy'n cadw

Efallai na fydd mynd allan i'r siop yn opsiwn; bydd pacio bwyd tun a bwyd sy'n cadw mewn pecyn llifogydd yn helpu i'ch cynnal.

### Dŵr potel

Gall difrod i seilwaith neu halogiad gan ddŵr llifogydd effeithio ar y cyflenwad dŵr. Bydd cyflenwad o ddŵr ffres a glân o botel yn helpu i gadw pawb yn ddiogel a sicrhau eu bod yn yfed digon.

### Allweddi'r tŷ a'r car

Fel y gallwch gael mynediad i'ch tŷ a'ch car ar ôl i'r llifogydd ostwng.

### Cyflenwadau ar gyfer anifeiliaid anwes

P'un a fyddwch yn trefnu i anifeiliaid anwes gael eu cymryd gan ffrind neu aelod o'r teulu sy'n byw y tu allan i ardal y perygl llifogydd, yn mynd â nhw gyda chi i ganolfan argyfwng neu os nad oes gennych ddewis ond gadael anifeiliaid ar ôl, gall paratoi cyflenwadau o fwyd, dŵr a deunydd gorwedd helpu i sicrhau eu lles.

## Eitemau defnyddiol

### Pecyn cymorth cyntaf

Er mwyn gallu rhoi cymorth cyntaf os bydd rhywun yn cael ei anafu.

### Camera

Er mwyn gallu cofnodi'r difrod a achoswyd gan y llifogydd i gefnogi hawliad yswiriant.

### Dillad sbâr

I sicrhau bod gan y rhai sy'n cael eu heffeithio ddillad glân a sych os oes angen.

### Cynhyrchion ymolchi sylfaenol

Papur toiled, brwsh dannedd, past dannedd, sebon, siampŵ, gel cawod a chynhyrchion misglwyf fel y gall y rhai yr effeithir arnynt aros yn lân ac yn iach a lleihau'r risg o ledaenu clefyd a haint.

### Blancedi

Os effeithiwyd ar gyflenwadau cyfleustodau, bydd y rhain yn helpu'r rhai yr effeithiwyd arnynt i gadw'n gynnes ac yn iach.

### Teganau, llyfrau a gemau

Bydd y rhain yn helpu i gysuro plant a'u cadw'n brysur.

## Eitemau sydd ddim mor ddefnyddiol:

### Bandiau braich

Gall llifddwr gynnwys cymysgedd annymunol o gemegau, malurion a bacteria. Mae yna hefyd berygl o anafu eich hun neu foddi ac felly ni ddylech fynd i mewn i lifddwr. Ni fydd angen bandiau braich!

### Eitemau trydanol

Dylid diffodd trydan tra bod llifogydd oherwydd bod cyfuno trydan a dŵr yn beryglus. Efallai y bydd trydan yn y ganolfan orffwys ond gyda chymaint o bobl mewn un lle a nifer cyfyngedig o socedi, mae'n annhebygol y bydd y rhan fwyaf o eitemau trydanol fel consolau gemau a sychwyr gwallt yn cael eu defnyddio.

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**



Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**